OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1204 (Cy. 248) (C. 94)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Amaethyddiaeth 2020 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2022

*Gwnaed - - - - 18 Tachwedd 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 57(3)(c) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Amaethyddiaeth 2020 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2022.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 13 Rhagfyr 2022**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 i rym ar 13 Rhagfyr 2022—

(a) Rhan 4 o Atodlen 7 (Y Rheoliad CMO: diwygiadau canlyniadol), a

(b) adran 52 (diwygiadau canlyniadol), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

18 Tachwedd 2022

(**1**) 2020 p. 21.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn ac maent yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) ("y Ddeddf").

Mae Rheoliad 2(a) yn dwyn i rym, ar 13 Rhagfyr 2022, Ran 4 o Atodlen 7 i'r Ddeddf. Mae Rheoliad 2(b) yn dwyn i rym, ar 13 Rhagfyr 2022, adran 52 o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth yn Rhan 4 o Atodlen 5 i'r Ddeddf, mae Rhan 4 o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau canlyniadol yng Nghymru mewn perthynas â darpariaethau safonau marchnata a dosbarthu carcasau yn Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 gan sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ("y Rheoliad CMO").

## NODYN AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Reoliadau Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 46 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1648 (Cy. 346)(C. 51) |
| Paragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 | 1 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1648 (Cy. 346)(C. 51) |